**Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW 2016-20**
**Cynllun Gweithredu**

Mae'r cynllun hwn yn defnyddio gwybodaeth a ganfuwyd o'r dadansoddiad data ac adborth yr ymgynghoriad a fanylir yng:

- Nghynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW 2016-20;
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb CBSW 2016-20, Adroddiad yr Ymgynghoriad - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Rhif Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar-lein: CWD/EIA00034/2015.

Er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol drwy leihau anghydraddoldeb byddwn yn:

- Gweithredu strategaethau allweddol sy'n sail i Gynllun y Cyngor – bydd hwn dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Cymryd camau gweithredu penodol ymlaen yn 2016-17 sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb;
- Parhau i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Chymryd camau ymlaen o safbwynt hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Nodwch:
Caiff camau gweithredu blynyddol er mwyn symud y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ymlaen eu disgrifio mewn cynlluniau gwasanaeth adrannol unigol. Caiff y rhain eu diweddaru'n flynyddol er mwyn adlewyrchu cynnydd ac unrhyw anghenion newydd.

<table>
<tr><td><u>Amcanion Cydraddoldeb Strategol:</u></td><td colspan="2">1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Heriau Allweddol:</u><br>• Nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu;<br>• Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir gwahanol; a<br>• Chynyddu cyfleoedd profiad gwaith i bobl sydd â nodweddion a ddiogelir.</td></tr>
<tr><td>Crynodeb o Gamau Gweithredu 2016-17<br>[Ceir mwy o fanylion o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol]</td><td>Strategaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyflog dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</td><td>Cynlluniau Gwasanaeth Adrannau Unigol</td></tr>
<tr><td>• Gwella hygyrchedd y Ganolfan Waith;<br>• Hyrwyddo'r Gronfa Mynediad i Waith;<br>• Adolygu trafnidiaeth gan gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig;<br>• Cynyddu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddi hygyrch i bobl sydd â nodweddion a ddiogelir<br>• Cefnogi pobl ifanc rhwng 16-26 oed i hyfforddiant a chyflogaeth;<br>• Gweithredu gwasanaeth 'Agor Drysau' er mwyn cefnogi rhieni sy'n agored i niwed i gael hyfforddiant a chyflogaeth<br>• Darparu mynediad rhyngrwyd a chymorth sylfaenol;<br>• Gweithredu GovDelivery;<br>• Darparu lleoliadau prentisiaethau modern i bobl ifanc;<br>• Darparu cyfleoedd Dydd a Chyflogaeth i bobl gydag anableddau dysgu;<br>• Gweithredu Cynllun Gweithredu Safonau Iechyd Corfforaethol;<br>• Gweithredu Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol<br>• Cynyddu monitro cydraddoldeb staff;<br>• Cynyddu dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau Cymru 2011;<br>• Darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff; hyrwyddo delweddau cadarnhaol o amrywiaeth;<br>• Hyrwyddo gwirfoddoli;<br>• Gweithredu Rhaglen Hyfforddi Tenantiaid;</td><td>• Strategaeth Ffyniant Economaidd<br>• Strategaeth Trechu Tlodi<br>• Datblygu Sefydliadol a Strategaeth y Gweithlu<br>• Cynllun Cyflawni Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf<br>• Rhaglen Cyflogadwyedd Datblygu Cymunedol<br>• Strategaeth NEET<br>• Cynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (Trechu Tlodi Plant) Wrecsam 2012- 17<br>• Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid 2014-16<br>• Cynllun Trafnidiaeth Lleol<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol</td><td>• Asedau a Datblygu Economaidd<br>• Plant a Phobl Ifanc - Atal a Gofal Cymdeithasol<br>• Lles a Datblygu Cymunedol<br>• Cyllid<br>• Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>• Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid<br>• Tai a Gwarchod y Cyhoedd<br>• Dysgu Gydol Oes</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| • Gwneud y mwyaf o Fuddion Cymunedol;<br>• Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb; a<br>• Chefnogi gwelliannau safon mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | | |

| **<u>Amcanion Cydraddoldeb Strategol:</u>** | **2. Lleihau anghydraddoldeb mewn Iechyd** | |
|---|---|---|
| <u>Heriau Allweddol:</u><br>• Cynyddu mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl; a<br>• Chynyddu nifer y bobl mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n dewis ffyrdd iach o fyw a chael mynediad i wasanaethau iechyd. | | |
| **Crynodeb o Gamau Gweithredu 2016-17**<br>[Ceir mwy o fanylion o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol] | **Strategaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | **Cynlluniau Gwasanaeth Adrannau Unigol** |
| • Adolygu darpariaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i holl breswylwyr Wrecsam gan gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Comisiynu gwasanaethau Cwnsela TAC ar gyfer teuluoedd gan gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Gweithredu cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff Activ8 i bobl ifanc gydag anableddau;<br>• Gosod cyfarwyddyd ar siopau tecawê bwydydd poeth sy'n agos at ysgolion;<br>• Cynnwys ystyriaethau Iechyd a Lles o fewn y Cynllun Datblygu Lleol;<br>• Gweithredu cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff er mwyn hyrwyddo rhaglenni iechyd a lles ac adfer;<br>• Gweithredu Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru (bibliotherapi);<br>• Hyrwyddo Diwrnodau Ymwybyddiaeth Iechyd Staff;<br>• Datblygu gwasanaethau iechyd meddwl ymhellach er mwyn cwrdd gofynion pobl ddiamddiffyn gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Gweithredu Cynllun Gweithredu Safonau Iechyd Corfforaethol; | • Cynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (Trechu Tlodi Plant) Wrecsam 2012- 17<br>• Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Safon Iechyd Corfforaethol<br>• Gyda'n Gilydd yn Wrecsam<br>• Datblygu Sefydliadol a Strategaeth Gweithlu<br>• Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid 2014-16<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol | • Plant a Phobl Ifanc - Atal a Gofal Cymdeithasol<br>• Lles a Datblygu Cymunedol<br>• Cyllid<br>• Asedau a Datblygu Economaidd<br>• Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>• Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid<br>• Tai a Gwarchod y Cyhoedd |

| | | |
|---|---|---|
| • Hyrwyddo gwirfoddoli;<br>• Gweithredu digwyddiadau tenantiaid;<br>• Hyrwyddo cynllun beicio i'r gwaith;<br>• Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb; a<br>• Chefnogi gwelliannau safon mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | | • Dysgu Gydol Oes |

| **<u>Amcanion Cydraddoldeb Strategol:</u>** | **3. Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn addysg i wneud y gorau o botensial yr unigolyn** | |
|---|---|---|
| <u>Heriau Allweddol:</u><br>• Lleihau bylchau cyrhaeddiad; a<br>• Trechu bwlio ar sail hunaniaeth | | |
| **Crynodeb o Gamau Gweithredu 2016-17**<br>[Ceir mwy o fanylion o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol] | **Strategaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn addysg dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | **Cynlluniau Gwasanaeth Adrannau Unigol** |
| • Lleihau bylchau cyrhaeddiad; a<br>• Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl sydd â nodweddion a ddiogelir.<br>• Cynyddu hyfforddiant cymunedol er mwyn rhoi mwy o sgiliau i bobl leol ar gyfer cyfleoedd newydd am swyddi;<br>• Gweithredu gwasanaeth Gwaith Ieuenctid mewn Addysg er mwyn lleihau bylchau cyrhaeddiad;<br>• Cefnogi pobl ifanc rhwng 16-26 oed i hyfforddiant a chyflogaeth;<br>• Darparu cefnogaeth wedi ei dargedu i Blant dan Ofal;<br>• Comisiynu gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc;<br>• Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol yn y gymuned i bobl sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Cynyddu gwybodaeth, cyfleoedd hyfforddi a chefnogaeth i Ofalwyr a Gofalwyr Ifanc; | • Cynllun Gweithredu Gwella Addysg 2015-18<br>• Cynllun Cyflawni PDB2 [i'w gadarnhau]<br>• Cynllun Cyflawni PDB3<br>• Cynllun Cyflawni Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf<br>• Cynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (Herio Tlodi Plant) Wrecsam 2012- 17<br>• Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol | • Asedau a Datblygu Economaidd<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol Plant<br>• Lles a Datblygu Cymunedol<br>• Cyllid<br>• Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>• Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid<br>• Tai a Gwarchod y |

| | | |
|---|---|---|
| • Darparu profiad gwaith a chymwysterau i bobl fynychu Cyfleodd Dydd a Chyflogaeth;<br>• Darparu cefnogaeth i drechu bwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion;<br>• Darparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i staff;<br>• Gweithredu Rhaglen Hyfforddi Tenantiaid;<br>• Gwneud y mwyaf o Fuddion Cymunedol;<br>• Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb;<br>• Cefnogi gwelliannau safon mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | • Gyda'n Gilydd yn Wrecsam<br>• Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid 2014-16<br>• Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol | Cyhoedd<br>• Dysgu Gydol Oes |

| **Amcanion Cydraddoldeb Strategol:** | **4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol** |
|---|---|

Heriau Allweddol:

- Herio troseddau casineb a bwlio;
- Lleihau cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Hyrwyddo delweddau cadarnhaol o amrywiaeth;
- Datblygu a gweithredu polisi celfi stryd mewn cysylltiad â byrddau arddangos; a
- Symud Cynllun Lle Diogel yn ei flaen.

| **Crynodeb o Gamau Gweithredu 2016-17**<br>[Ceir mwy o fanylion o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol] | **Strategaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn diogelwch personol dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | **Cynlluniau Gwasanaeth Adrannau Unigol** |
|---|---|---|
| • Comisiynu gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr Ifanc gan gynnwys diogelu;<br>• Darparu Tîm o Amgylch y Plentyn a chefnogaeth Eiriolaeth Ail Lais ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn mynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth;<br>• Darparu cefnogaeth deuluol er mwyn mynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth a throseddau casineb;<br>• Darparu lleoliadau cymunedol fel canolfannau i adrodd am droseddau casineb; | • Cynllun Cyflenwi a chynlluniau gweithredu PDB3<br>• Cynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (Herio Tlodi Plant) Wrecsam 2012- 17 | • Lles a Datblygu Cymunedol<br>• Plant a Phobl Ifanc - Atal a Gofal Cymdeithasol<br>• Gofal Cymdeithasol i |

| | | |
|---|---|---|
| • Hyrwyddo cynhwysiant wrth gynllunio mannau cyhoeddus;<br>• Darparu cynlluniau gweithredu Cydnerthu Cymunedol;<br>• Darparu ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff;<br>• Darparu Cynlluniau Gadael Safle Personol i Staff;<br>• Darparu cefnogaeth ymgynghorol gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Gweithredu'r cynllun 'Purple Angel';<br>• Darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Dementia;<br>• Gweithredu Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol;<br>• Gweithredu Rhaglen Hyfforddi Tenantiaid;<br>• Darparu cefnogaeth i ysgolion;<br>• Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb;<br>• Cefnogi gwelliannau safon mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;<br>• Datblygu a gweithredu polisi celfi stryd yn ymwneud â byrddau arddangos; a<br>• Symud Cynllun Lle Diogel yn ei flaen. | • Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Datblygu Sefydliadol a Strategaeth y Gweithlu<br>• Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch Corfforaethol<br>• Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid 2014-16<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol | Oedolion<br>• Cyllid<br>• Asedau a Datblygu Economaidd<br>• Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid<br>• Tai a Gwarchod y Cyhoedd<br>• Dysgu Gydol Oes |

| **Amcanion Cydraddoldeb Strategol:** | **5. Lleihau anghydraddoldeb o ran Cynrychiolaeth a Llais** | |
|---|---|---|
| Heriau Allweddol:<br>• Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu;<br>• Cynyddu ymgysylltiad â phobl sydd â nodweddion a ddiogelir wrth gynllunio a darparu gwasanaethau; a<br>• Chynnwys cymunedau/pobl â nodweddion a ddiogelir mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | | |
| **Crynodeb o Gamau Gweithredu 2016-17**<br>[Ceir mwy o fanylion o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol] | **Strategaethau allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Cynrychiolaeth a Llais dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | **Cynlluniau Gwasanaeth Adrannau Unigol** |
| • Adolygu darpariaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i holl drigolion Wrecsam gan gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Cyd-gynhyrchu cynlluniau comisiynu gwasanaethau;<br>• Darparu gwasanaeth Hawliau Lles ; | • Strategaeth Gyfathrebu<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol<br>• Cynllun Busnes y | • Asedau a Datblygu Economaidd<br>• Plant a Phobl Ifanc - Atal a Gofal |

| | | |
|---|---|---|
| • Darparu gwasanaeth cwnsela Dyled;<br>• Darparu Gwasanaeth Eirioli Ail Lais i bobl ifanc;<br>• Darparu Siop Wybodaeth Pobl Ifanc;<br>• Cefnogi Senedd yr Ifanc;<br>• Darparu gwasanaethau broceriaeth i rieni plant anabl;<br>• Gwella gwybodaeth, cymorth a chyfeirio at gael mynediad i wasanaethau cefnogi;<br>• Ymgynghori gyda staff a phobl sydd â nodweddion a ddiogelir fel rhan o ddatblygiadau gwasanaeth;<br>• Datblygu ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ar fyrddau, paneli, ayb ;<br>• Darparu ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff;<br>• Gweithredu Rhaglen Hyfforddi Tenantiaid a fforymau;<br>• Gwella monitro a dadansoddi cydraddoldeb;<br>• Gweithredu Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol;<br>• Cefnogi gwelliannau safon mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; | Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Cynllun Ad-drefnu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant<br>• Cynllun Cyflawni Dechrau'n Deg<br>• Strategaeth Ymgynghori a Chysylltu<br>• Datblygu Sefydliadol a Strategaeth y Gweithlu<br>• Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig<br>• Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid 2014-16<br>• Cynllun Gweithredu Digartrefedd 2015-16<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol | Cymdeithasol<br>• Lles a Datblygu Cymunedol<br>• Cyllid<br>• Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>• Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid<br>• Tai a Gwarchod y Cyhoedd<br>• Dysgu Gydol Oes |

| | |
|---|---|
| **<u>Amcanion Cydraddoldeb Strategol:</u>** | **6 Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd** |
| <u>Heriau Allweddol:</u><br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth a'i oblygiadau ar ddatblygiad a darpariaeth gwasanaeth;<br>• Gwella ymgysylltiad gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir, a<br>• Gwella mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd | |

| **Crynodeb o Gamau Gweithredu 2016-17**<br>[Ceir mwy o fanylion o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannau unigol] | **Strategaethau allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn** | **Cynlluniau Gwasanaeth Adrannau Unigol** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | **mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd dros gyfnod bywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | |
| • Galw Wrecsam fel pwynt mynediad sengl ar gyfer gwasanaethau'r cyngor<br>• Gwella ymgysylltiad gyda'r holl nodweddion a ddiogelir;<br>• Sicrhau cyfranogiad mwy hygyrch gan gynnwys materion gwledig;<br>• Cynyddu cefnogaeth ar gyfer pob cymuned i fynd yn ddigidol;<br>• Adolygu darpariaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i holl drigolion Wrecsam gan gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir;<br>• Adolygu tudalennau gwe;<br>• Gwasanaeth Hawliau Lles;<br>• Gwasanaeth cwnsela Dyled;<br>• Gwasanaeth Eirioli Ail Lais i bobl ifanc;<br>• Gwasanaethau broceriaeth i rieni plant anabl;<br>• Gwella gwybodaeth, cymorth a chyfeirio at fynediad i wasanaethau cefnogi ;<br>• Gwasanaeth allgymorth Ymgysylltu Teuluoedd<br>• Gwasanaethau allgymorth Dechrau'n Deg;<br>• Pwynt mynediad sengl DEWIS ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;<br>• Gwella arwyddion cyhoeddus;<br>• Cyfleusterau talu ar-lein;<br>• Fframwaith Mwy na Geiriau;<br>• Cynllun Teithio Staff ac Aelodau Etholedig;<br>• Mynediad gwell i amserlenni bws;<br>• Trefn Gwyno:<br>• Gweithredu Safonau Gofal Cwsmeriaid;<br>• Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff;<br>• Monitro a dadansoddi cydraddoldeb;<br>• Cefnogi gwelliannau safon mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; | • Strategaeth Ffyniant Economaidd<br>• Cynllun Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf.<br>• Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Cynllun Gweithredu arolwg Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br>• Cynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (Herio Tlodi Plant) Wrecsam 2012- 17<br>• Cynllun Cyflawni Dechrau'n Deg<br>• Strategaeth Ymgysylltu Gofal Cymdeithasol Plant<br>• Strategaeth Ymgynghori a Chysylltu<br>• Strategaeth Iaith Gymraeg<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Prif Gynllun Canol y Dref<br>• Cynllun Trafnidiaeth Lleol<br>• Cynllun Cyflawni PDB3<br>• Cynllun Symudedd Trefol Cynaliadwy Wrecsam<br>• Uned Cymunedau Mwy | • Asedau a Datblygu Economaidd<br>• Plant a Phobl Ifanc - Atal a Gofal Cymdeithasol<br>• Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>• Lles a Datblygu Cymunedol<br>• Cyllid<br>• Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid<br>• Tai a Gwarchod y Cyhoedd<br>• Dysgu Gydol Oes |

| | | |
|---|---|---|
| | Diogel ar y Cyd;<br>• Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid 2014-16<br>• Cynllun Gweithredu Digartrefedd 2015-16<br>• Strategaeth Gyfathrebu CBSW<br>• Cynlluniau hyfforddi adrannau unigol<br>• Safonau Gofal Cwsmer | |